Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

## Adroddiad Blynyddol 2017-18



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol Adroddiad Blynyddol 2017-18

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7(4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 21 Mehefin 2018.

HC 1139

OGL

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâˆd i'w defnyddio gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn Legal Aid Agency, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ

ISBN 978-1-5286-0537-3

CCS0618858008 06/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Rôl y Cyfarwyddwr | 3 |
| Y Broses a Strwythur Penderfynu | 7 |
| Atebolrwydd | 12 |
| Ystadegau | 13 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 13 |
| Diweddglo | 14 |

# Rhagair

Rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2017-18.

Cafodd fy rôl i fel Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ei chreu o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ("y Ddeddf"). Mae'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Mae'r Cyfarwyddwr yn llwyr gyfrifol am achosion unigol, ac yn sicrhau bod penderfynu yn y maes hwn yn annibynnol ar Lywodraeth.

Rwyf wedi dal y rôl hon ers 1 Ebrill 2016, pryd yr ymgymerais â rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a rôl Prif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd ar ran y Cyfarwyddwr ac mae'n cynnwys y penderfyniadau a wnaed a'r prosesau a ddilynwyd.

Cafwyd nifer o ddiwygiadau i reoliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gofynion o ran tystiolaeth am drais domestig a wnaeth arwain at ddiweddaru canllawiau a roddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 4 o'r Ddeddf. Roedd newidiadau hefyd yn y meini prawf cymhwystra ar gyfer dioddefwyr tân Grenfell Tower a gafodd daliadau digolledu.

Ymhlith yr eitemau eraill i'w nodi y mae:

- ymestyn y terfynau talu am rai mathau o waith troseddol o dan y Ddeddf fel eu bod hefyd yn cynnwys achosion cysylltiedig yn yr Uchel Lys, y Llys Sirol neu'r Llys Teulu;
- taliadau am achosion newydd mewn perthynas â mechnïaeth yr heddlu;
- newidiadau mewn taliadau am achosion Llys y Goron.

Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, credaf bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn aros yn ymatebol iawn i newidiadau mewn deddfwriaeth a rheoliadau gan barhau i gefnogi rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.



**Shaun McNally**
Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

# Cyflwyniad

1. Penodir y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (“y Cyfarwyddwr”) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 4 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (“y Ddeddf”). Rôl y Cyfarwyddwr yw gwneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

2. Mae’r Cyfarwyddwr yn gweithredu’n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir ar waith yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (“yr Asiantaeth”) i sicrhau annibyniaeth. Mae’r rhain wedi’u disgrifio’n fwy manwl yn yr adroddiad hwn.

3. Mae nifer o’r swyddogaethau y mae’r Cyfarwyddwr yn eu harfer yn cael eu dirprwyo i’r Asiantaeth. Daeth yr Asiantaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 2013 ac mae’n Asiantaeth Weithredol i’r Weinyddiaeth Cyfiawnder (“y Weinyddiaeth Cyfiawnder”). Roedd hyn yn dilyn diddymu’r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol o dan nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a oedd yn gwneud penderfyniadau cynt ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

4. Mae’r Cyfarwyddwr yn cael cymorth gan Fwrdd yr Asiantaeth i sicrhau bod arferion effeithiol ar waith i gynnal annibyniaeth y broses penderfynu ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol.

5. Gall rolau Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth gael eu dal gan yr un unigolyn. Er hynny, mae trefniadau gwahanol ynghylch atebolrwydd ac adrodd ar gyfer y ddwy rôl. Ers 1 Ebrill 2016 mae’r ddwy rôl wedi cael eu dal gan Shaun McNally.

6. Mae’r adroddiad hwn yn egluro sut mae’r Cyfarwyddwr wedi cyflawni’r swyddogaethau a ymddiriedwyd yn benodol iddo o dan y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae’r Asiantaeth yn cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar wahân lle mae’n trafod cylch gwaith ehangach y sefydliad.

# Rôl y Cyfarwyddwr

7. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol sifil a throseddol fel y nodwyd yn Rhan 1 o'r Ddeddf.[1]

8. O dan y Ddeddf, gall yr Arglwydd Ganghellor ddyroddi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch sut i gyflawni ei swyddogaethau, ond rhaid iddo beidio â dyroddi cyfarwyddiadau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd yn ogystal â gweithredu'n unol â'r Ddeddf a'r fframwaith rheoleiddio cysylltiedig.

9. Nid yw'r Arglwydd Ganghellor wedi cyhoeddi unrhyw ddogfennau canllaw newydd yn 2017-18. Er hynny, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi gwneud diwygiadau i ddogfennau canllaw a oedd yn bodoli cynt er mwyn cymryd i ystyriaeth ddiwygiadau i reoliadau sydd wedi'u disgrifio isod.

10. Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi diweddaru ei ganllawiau (o dan adran 4 o'r Ddeddf):
    - i gymryd i ystyriaeth ddiwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2018. Roedd y rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion o ran tystiolaeth am drais domestig, sydd wedi'u disgrifio isod.

11. Hefyd, cafodd y newidiadau canlynol eu gwneud i'r fframwaith rheoliadol a deddfwriaethol yn 2017-18:
    - Mae Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) (Diwygio) 2017 wedi diwygio rheoliadau 24 a 40 yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y rheolau y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr eu cymhwyso wrth benderfynu a yw adnoddau ariannol unigolyn yn gyfryw fel bod yr unigolyn yn gymwys i gael gwasanaethau cyfreithiol sifil o dan Ran 1 o'r Ddeddf. Mae rheoliad 24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr ddiystyru taliadau penodol wrth gyfrifo incwm gwario neu incwm gros unigolyn. Mae rheoliad 40 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr ddiystyru taliadau penodol wrth gyfrifo cyfalaf unigolyn. Mae'r diwygiadau i'r rheoliadau'n caniatáu i'r Cyfarwyddwr ddiystyru wrth gyfrifo incwm gwario, incwm gros a chyfalaf gwario unrhyw daliad a wnaed i unigolyn sydd wedi dioddef yn y tân yn Grenfell Tower ar 14 Mehefin 2017, ar yr amod bod y taliad wedi'i wneud oherwydd bod yr unigolyn wedi dioddef yn y tân hwnnw (heblaw am daliadau uniongyrchol gan unigolyn y mae'r dioddefwr yn ei adnabod yn bersonol). Daeth y diwygiadau i rym ar 14 Gorffennaf 2017.

1 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/part/1/enacted

- Mae Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) (Diwygio) (Rhif 2) wedi diwygio rheoliadau 33, 34 a 42 yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012 a hefyd wedi ychwanegu dwy atodlen newydd i'r rheoliadau hynny.
- Mae rheoliad 33 yn pennu'r mathau o dystiolaeth am drais domestig y mae'n rhaid eu darparu gyda chais am wasanaethau cyfreithiol sifil o dan baragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Roedd y rheoliad 33 diwygiedig yn dileu'r terfyn amser o 60 mis ar gyfer mathau penodol o dystiolaeth am drais domestig, neu berygl o drais domestig, ac yn cyflwyno mathau newydd o dystiolaeth, sydd wedi'u rhestru yn yr atodlen 1 newydd, lle mae'r dioddefwr wedi gofyn am gymorth gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol, awdurdod cyhoeddus neu sefydliad cymorth trais domestig. Roedd yr atodlen 1 newydd yn cyflwyno diffiniad newydd o waharddeb amddiffynnol ("protective injunction"), at ddibenion y gofynion am dystiolaeth yn rheoliadau 33(2) a 24(2) (dogfennau ategol mewn perthynas â thrais domestig ac amddiffyn plant).

  Roedd y rheoliad 34 diwygiedig yn dileu'r terfyn amser o 24 mis ar gyfer mathau penodol o dystiolaeth o gam-drin plant neu berygl o gam-drin plant. Diwygiwyd rheoliad 42(1)(k) hefyd i ehangu pŵer y Cyfarwyddwr i dynnu penderfyniad yn ôl.

  Bydd bellach yn cynnwys amgylchiadau lle'r oedd y dystiolaeth:

  – a gyflwynwyd gyda'r cais yn orchymyn llys sydd wedi'i osod o'r neilltu wedyn;
  – ar ffurf llythyr oddi wrth sefydliad cymorth trais domestig neu swyddog tai a bod awdurdod cyhoeddus wedi cadarnhau wedyn ei fod wedi'i fodloni nad oedd trais domestig wedi digwydd.
- Mae'r atodlenni 1 a 2 newydd yn disgrifio'r mathau o dystiolaeth y cyfeirir atynt yn rheoliadau 33 a 34. Daeth y diwygiadau i rym ar 8 Ionawr 2018.
- Mae Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Contract Trosedd Safonol) (Diwygio) 2017 wedi diwygio Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cyffredinol) 2013, Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 ("y Rheoliadau Taliadau") a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Ariannol) 2013. Diwygiwyd yr holl reoliadau uchod i adlewyrchu disodli Contract Trosedd Safonol 2010 gan Gontract Trosedd Safonol 2017 ar 1 Ebrill 2017, sy'n llywodraethu'r berthynas gontractiol rhwng darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a'r Arglwydd Ganghellor.

Hefyd, mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau Taliadau yn darparu lle mae cynrychiolaeth wedi'i ddarparu mewn cysylltiad ag achos yn Llys y Goron fod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol beidio â derbyn tâl am waith a wnaed mewn cysylltiad â'r achos hwnnw o ffynonellau heblaw'r Arglwydd Ganghellor. Ehangwyd y ddarpariaeth hon i gynnwys talu o ffynonellau eraill am waith a wnaed mewn cysylltiad ag achos yn y Llys Ynadon.

Roedd darpariaeth wedi'i gwneud eisoes hefyd y gall yr Arglwydd Ganghellor ddynodi achosion penodol yn achosion troseddol at ddibenion y Ddeddf. Roedd tâl am waith a wnaed mewn cysylltiad ag achosion a ddynodwyd yn achosion troseddol yn ddarostyngedig i derfyn tâl uchaf os oedd y gwaith yn ymwneud ag achos yn Llys y Goron. Mae'r diwygiadau hyn yn ymestyn y ddarpariaeth hon i gynnwys gwaith sy'n ymwneud ag achos yn yr Uchel Lys, Llys Sirol neu Lys Teulu.

Bydd Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017, pan gaiff ei chychwyn, yn cyflwyno gweithrediadau newydd mewn perthynas â mechnïaeth yr heddlu. Gwnaed diwygiadau i'r Rheoliadau Taliadau i wneud darpariaethau ar gyfer talu am waith a wnaed mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath. Daeth y diwygiadau uchod i rym ar 1 Ebrill 2017.

- Mae Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) (Diwygio) 2017 wedi diwygio Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 sy'n darparu ar gyfer talu am gyngor, cymorth a chynrychiolaeth ar gyfer Cymorth Cyfreithiol Troseddol. Mae Atodlen 2 i'r rheoliadau sy'n cynnwys Cynllun Ffioedd Graddedig Ymgyfreithwyr yn llywodraethu'r ffioedd sy'n daladwy i ddarparwyr gwasanaethau cyfreitha troseddol yn Llys y Goron. Telir ffi sengl i ymgyfreithwyr, a elwir yn ffi raddedig, am ddelio ag achos cymorth cyfreithiol troseddol. Cyfrifir y ffi hon drwy gyfeirio at nifer y tudalennau a gyflwynwyd gan yr erlyniad yn dystiolaeth, yn ddarostyngedig i derfyn uchaf. Os yw'r nifer yn uwch na'r terfyn, roedd y Rheoliadau Taliadau yn darparu y gellir hawlio am "ffi baratoi arbennig" sef ffi ychwanegol wedi'i seilio ar yr amser rhesymol a gymerir i ystyried nifer y tudalennau o dystiolaeth sy'n uwch na'r terfyn. Roedd y diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn gostwng y terfyn uchaf o 10,000 i 6,000 o dudalennau. Daeth y diwygiadau uchod i rym ar 1 Rhagfyr 2017.
- Mae Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Diwygio) 2017 wedi diwygio Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cyffredinol) 2013 ("y Rheoliadau Cyffredinol"), Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Ariannol) 2013 ("y

Rheoliadau Adnoddau Ariannol") a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 ("y Rheoliadau Taliadau"). Mae'r diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol troseddol i gynnwys:

i. cyngor a chymorth mewn perthynas ag adolygiadau o ddynodiad carcharor yn Garcharor Categori A (sef carcharor y byddai ei ddianc yn beryglus iawn i'r cyhoedd, yr heddlu neu ddiogelwch gwladol ac y mae'r nod ar ei gyfer yw gwneud dianc yn amhosibl);

ii. cyngor a chymorth mewn perthynas â chyfarwyddiadau i leoli carcharor mewn canolfan goruchwyliaeth fanwl mewn carchar;

iii. cyngor a chymorth mewn perthynas â chyfarwyddiadau i leoli carcharor mewn canolfan wahanu mewn carchar; a

iv. yr holl weithrediadau o flaen y Bwrdd Parôl.

Diwygiwyd rheoliad 12 yn y Rheoliadau Cyffredinol hefyd. Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi'r amodau sydd i'w bodloni cyn y gellir trefnu i gyngor a chymorth fod ar gael i unigolyn mewn achos troseddol. Roedd y diwygiadau'n ehangu'r amodau a ragnodwyd mewn perthynas â dedfryd yr unigolyn. Roeddent hefyd yn ehangu'r amodau a ragnodwyd i gynnwys yr holl weithrediadau o flaen y Bwrdd Parôl.

Mae rheoliad 7 yn y Rheoliadau Adnoddau Ariannol yn pennu'r categorïau gwaith y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr wneud penderfyniad yn eu cylch bod adnoddau ariannol yr unigolyn yn gyfryw fel ei fod yn gymwys i dderbyn cymorth eirioli (ar yr amod bod rhai meini prawf ychwanegol wedi'u bodloni). Mae'r diwygiadau hyn yn ehangu'r amgylchiadau hynny i gynnwys adolygiadau o ddynodi unigolyn yn garcharor Categori A.

Mae Atodlen 4 i'r Rheoliadau Taliadau wedi'i diwygio hefyd mewn perthynas â darparu'r gyfradd i'w thalu am gyngor a chymorth ar gyfer achos troseddol. Pwrpas y diwygiadau oedd darparu ffioedd priodol am gymorth eirioli ar gyfer materion sy'n ymwneud â dedfryd yr unigolyn. Daeth y diwygiadau uchod i rym ar 21 Chwefror 2018.

12. Er nad oes rôl gan yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â phenderfyniadau ariannu unigol, mae cyfarfod blynyddol yn cael ei drefnu hefyd i drafod cyflawni swyddogaethau'r swydd. Mae hyn i gynnwys trafodaeth am unrhyw themâu sydd wedi codi mewn perthynas â rôl y Cyfarwyddwr, y cynllun cymorth cyfreithiol a gwersi a ddysgwyd. Cynhaliwyd y cyfarfod eleni ar 16 Mai 2018. Trafodwyd y pynciau sydd wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn.

# Y Broses a Strwythur Penderfynu

13. Mae penderfyniadau ar achosion a swyddogaethau'r Cyfarwyddwr wedi'u dirprwyo i'r Asiantaeth. Yn benodol, gwneir y penderfyniadau gan y tîm Rheoli Achosion sy'n cynnwys tua 891 o staff. Mae'r tîm hwn wedi'i rannu'n ddau grŵp, y ddau'n cael eu rheoli gan Ddirprwy Gyfarwyddwr:

    - Rheoli Achosion Sifil a Throsedd
    - Y Tîm Achosion Eithriadol a Chymhleth ("TAEC"). Mae'r grŵp hwn yn gyfuniad o'r Tîm Sifil Cost Uchel, y Tîm Ariannu Achosion Eithriadol, a'r Tîm Mewnfudo a Lloches cenedlaethol blaenorol.

14. Mae'r gwaith Rheoli Achosion Sifil yn cynnwys timau Rhinweddau Cyfreithiol, Achosion Cost Uchel Teulu, Moddion, Cyllid Sifil, Rheoli Cofnodion a Chymorth Busnes Canolog yn ogystal â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid. Drwy gydol y flwyddyn mae'r Asiantaeth wedi gweithio fel cyfangorff i symleiddio prosesau yn fewnol ac allanol er mwyn gwella amseroedd cyflawni. Mae'r Asiantaeth wedi cydweithio'n agos â darparwyr a'r cyrff cynrychiadol i bennu meysydd gwaith allweddol, drwy gynnig ymweliadau a gweithdai i ddarparwyr a'u cynnwys mewn digwyddiadau gwella parhaus. Mae'r mesurau hynny wedi helpu i sicrhau bod 100% o geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol wedi'u prosesu o fewn 2 ddiwrnod gwaith, 97% o geisiadau am gymorth cyfreithiol sifil wedi'u prosesu o fewn 15 diwrnod gwaith (heblaw'r achosion mwyaf cymhleth) a 98% o filiau cyflawn a chywir wedi'u talu o fewn 20 diwrnod gwaith. Cyrhaeddwyd yr holl dargedau gweithredol mewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn 2017-18.

15. Ym maes Rheoli Achosion Trosedd, mae'r broses ar gyfer cyflwyno hawliadau ymgyfreithwyr ac eiriolwyr o dan Ddeddf Enillion Troseddau wedi'i digideiddio'n llwyr er Chwefror 2018, fel bod darparwyr yn cael eu talu'n gyflymach ac yn fwy effeithlon. Mae Rheoli Achosion Trosedd yn cynnwys yr Uned Achosion Troseddol sy'n delio ag achosion troseddol uchel eu cost, paratoi arbennig, asesu hawliadau o dan Ddeddf Enillion Troseddau a hawliadau a delir o Gronfeydd Canolog.

16. Mae'r TAEC yn delio â'r achosion sifil mwyaf drud a chymhleth a ariennir gan yr Asiantaeth yn ogystal ag achosion mewnfudo, heblaw'r rheini a ariennir drwy waith a reolir. Mae proffil gwleidyddol uchel i nifer o'r ceisiadau sy'n dod i law'r Cyfarwyddwr ac yn cael eu cyfeirio at y TAEC. Er enghraifft, y tîm hwn a ddeliodd â'r cais am gynrychiolaeth yn y cwest ar gyfer teuluoedd nifer o'r rheini a laddwyd yn y bomio yn nhafarndai Birmingham ym 1974. Mae'r tîm hwn hefyd wedi goruchwylio'r ceisiadau am gymorth cyfreithiol mewn cysylltiad â thrychineb tân Grenfell.

17. Mae'r cynllun Cyllid Achosion Eithriadol ("y cynllun") bellach yn dod o dan adain y TAEC. Mae'r cynllun yn cynnwys yr holl geisiadau sydd y tu allan i gwmpas cyllid cymorth cyfreithiol sifil arferol o dan y Ddeddf. Fel y nodwyd yn adran 10 o'r Ddeddf, bydd y cynllun yn gymwys lle byddai methu â darparu cymorth cyfreithiol yn torri, neu lle mae risg sylweddol o dorri:

    a. hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998); neu

    b. unrhyw hawliau sydd gan yr unigolyn o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau gorfodadwy'r UE.

18. Rhaid ystyried ceisiadau o dan y cynllun fesul achos, ar ôl ystyried y ffeithiau a'r gofynion statudol am ariannu, gan roi sylw i'r canllawiau ar y cynllun a chyfraith achosion. Gall ceiswyr wneud ceisiadau'n uniongyrchol, ac mae hyn yn digwydd weithiau.

19. Er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth cymorth cyfreithiol a chanllawiau'r Arglwydd Ganghellor yn cael eu cymhwyso'n gyson, parhawyd i ddarparu cyngor a hyfforddiant i holl weithwyr achos yr Asiantaeth, yn ôl rôl benodol pob tîm gwaith achosion.

20. Darperir cyngor cyfreithiol i'r Cyfarwyddwr gan y Tîm Cyfreithiol Canolog sy'n cynnwys cyfreithwyr a gyflogwyd gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ond sydd wedi'u haseinio i'r Asiantaeth a'u cydleoli â hi. Mae'r tîm yn gweithredu dros yr Asiantaeth yn unig wrth arfer swyddogaethau'r Cyfarwyddwr neu swyddogaethau gweithredol yr Arglwydd Ganghellor ar gymorth cyfreithiol.

21. Dirprwyir penderfyniadau ar geisiadau unigol i weithwyr achos ac mae cyfle i'w huwchgyfeirio os bydd angen. Mae hyn yn cynnwys mecanwaith atgyfeirio i'r Tîm Cyfreithiol Canolog ar gyfer materion proffil uchel sy'n cynnwys achosion sy'n mynd i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys. Mae'r broses hon ar gyfer uwchgyfeirio ac atgyfeirio yn rhoi'r sicrwydd gofynnol i'r Cyfarwyddwr fod unrhyw benderfyniadau a wneir yn gyfreithlon.

## Apeliadau ac Adolygiadau

22. Mae hawl i ofyn am gynnal adolygiad mewnol mewn perthynas â holl benderfyniadau'r Cyfarwyddwr. Hefyd, oni bai fod y cais yn un am Gyllid Achosion Eithriadol neu fod y Cyfarwyddwr yn penderfynu nad yw'r achos o fewn cwmpas y Ddeddf, mae hawl ychwanegol i apelio i Ddyfarnwr Ariannu Annibynnol ("Dyfarnwr"), cyfreithiwr neu fargyfreithiwr sy'n ymarfer yn breifat. Mae'r Dyfarnwyr yn aelodau o'r Panel Adolygu Apeliadau Ariannu a Chostau ("y Panel"). Nid yw aelodau'r Panel wedi'u cyflogi gan yr Asiantaeth ac maent yn gweithredu'n annibynnol. Mae ystadegau ar nifer a chanlyniadau apeliadau ym mhob argraffiad blynyddol o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol, a bydd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2018 yn cael eu cyhoeddi ar 28 Mehefin 2018.

23. Bydd penderfyniad y Dyfarnwr ar rai materion yn rhwymo'r Cyfarwyddwr. Y rhain yw: unrhyw asesiad o'r rhagolygon o lwyddiant achos; a yw mater o'r pwys mwyaf i'r cleient; cymhareb cost a budd yr achos; a gollwng neu ddirymu ar sail ymddygiad y cleient. Caiff materion eraill eu cyfeirio'n ôl i'r Cyfarwyddwr i'w hailystyried. Mae rhai o aelodau'r panel, yn eu rôl fel Aseswyr Costau Annibynnol, yn ystyried apeliadau yn erbyn asesiadau dros dro o gostau gan staff yr Asiantaeth.

24. Ar 31 Mawrth 2018 roedd y Panel yn cynnwys 100 o aelodau sy'n ystyried mwyafrif yr apeliadau ar eu pen eu hunain. Dyrennir apeliadau yn ôl y meysydd cyfraith arbenigol sydd wedi'u datgan gan bob aelod o'r Panel.

25. Mae is-banel, y Panel Rheolaethau Arbennig ("yr Is-banel"), sy'n cael ei ffurfio o dri aelod arbenigol o'r Panel. Mae'n ystyried apeliadau sy'n ymwneud â rhai achosion cost uchel ac achosion eraill mwy cymhleth. Mae 20 o aelodau'r Is-banel yn aelodau o'r Panel.

26. Os bydd y cleient yn anfodlon ar y penderfyniad terfynol ar ôl adolygiad ac/neu apêl, yna yr unig gam y gellir ei gymryd yw ymgyfreitha.

## Ymgyfreitha

27. Gellir herio penderfyniadau'r Cyfarwyddwr drwy wneud hawliad am adolygiad barnwrol. Heriau nodedig eleni oedd y rhai yn erbyn yr arwystl statudol, sy'n elfen hirsefydlog yn y cynllun cymorth cyfreithiol. Bydd yr arwystl yn codi pan fydd rhywun a gafodd gymorth cyfreithiol yn adennill neu'n cadw arian neu eiddo mewn achos ond lle nad yw ei holl gostau cymorth cyfreithiol wedi'u talu gan yr ochr arall. Yn yr amgylchiadau hyn, codir arwystl statudol ar yr arian neu eiddo i adennill y costau hynny. Darperir ar gyfer hyn yn adran 25 o'r Ddeddf.

28. Yn achos Permila Tirkey v y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a'r Arglwydd Ganghellor [2017] EWHC 3403 (Admin), roedd un a ddioddefodd oherwydd masnachu mewn pobl wedi ceisio herio'r penderfyniad i godi'r arwystl statudol ar iawndal yr oedd wedi'i ennill mewn achos tribiwnlys cyflogaeth lle rhoddwyd cymorth cyfreithiol. Cyfanswm y dyfarndal i'r hawlydd yn yr achos hwnnw oedd £266,536.14. Y swm a adenillwyd wrth orfodi'r dyfarndal hwnnw oedd £35,702.80. Gosododd yr Asiantaeth ei harwystl statudol ar y swm hwnnw ac roedd hyn yn golygu nad oedd yr hawlydd wedi adennill dim o'r iawndal iddi ei hun. Roedd y dyfarniad ar her yr hawlydd wedi cadarnhau nad oes erthygl yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol na darpariaeth yng nghyfraith yr UE sy'n peri bod yr arwystl statudol fel y cafodd ei gymhwyso at yr hawlydd yn anghyfreithlon. Nodwyd yn y dyfarniad fod amgylchiadau'r hawlydd yn anffodus, ond ni dderbyniwyd dadleuon yr hawlydd y

dylai allu adennill cyfran sylweddol o leiaf o'r arian y gosodwyd yr arwystl arno.

Cadarnhaodd y dyfarniad fod yr arwystl statudol yn ddarpariaeth "llinell bendant" a oedd yn gymwys i achos yr hawlydd, er bod ganddi statws dioddefwr masnachu mewn pobl. Nid oedd dim anarferol neu eithriadol am y statws hwnnw a oedd yn ei gwneud yn ofynnol na fyddai'r prawf statudol a greodd yr arwystl statudol yn gymwys i'r iawndal yr oedd wedi'i adennill.

29. Roedd achos R (ar gais Faulkner) v y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol [2016] EWHC 717 yn achos a oedd yn rhagflaenu'r Ddeddf lle'r oedd yr hawlydd yn dymuno i'r Cyfarwyddwr arfer disgresiwn ac ildio'r arwystl statudol. Dadl yr hawlydd oedd bod penderfyniad yr Asiantaeth wedi'i seilio ar ddehongliad diffygiol o reoliad 47 o Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000, bod ei achos wedi bod yn achos enghreifftiol [er nad oedd wedi'i ariannu'n benodol gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (rhagflaenydd yr Asiantaeth) o flaen achosion yn ymwneud â hawlwyr eraill]. O ganlyniad, roedd penderfyniad yr Asiantaeth yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 gan y byddai'n ei adael heb iawn am dresmasu ar ei hawliau o dan Erthygl 5. Ni lwyddodd yr hawlydd yn y Llys Gweinyddol. Er hynny, gwnaeth gais llwyddiannus am ganiatâd i apelio mewn gwrandawiad yn y Llys Apêl ar 9 Tachwedd 2017. Bydd yr apêl hon yn cael ei gwrando gan y Llys Apêl ar 4 Gorffennaf 2018. Dadl y Cyfarwyddwr oedd gan nad oedd Mr Faulkner wedi gofyn am arfer y disgresiwn o dan reoliad 47 nes i'w achos ddod i ben, na ellid bodloni'r amodau o dan reoliad 47, gan nad oedd achos Mr Faulkner ar unrhyw adeg wedi'i ddewis i'w ariannu yn hytrach nag achosion eraill.

30. Mae ymchwil yn parhau i'r posibilrwydd o osod yr arwystl statudol ar iawndal a ddyfarnwyd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol o blaid plant a rhieni mewn achosion cyfraith gyhoeddus teulu, o ganlyniad i fethiant gan awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill sy'n dod i'r golwg o fewn neu yr un pryd â'r achosion hynny. Mae'r Asiantaeth, wrth weithredu ar ran yr Arglwydd Ganghellor, wedi ymwneud yn uniongyrchol â dau achos sy'n cynnwys hawliadau am iawndal o dan y Ddeddf Hawliau Dynol yng nghyswllt achosion gofal [PW & Ors v Cyngor Bwrdeistref Luton [2017] EWHC 3028 (Fam)] ac achos pellach sy'n parhau. Mae'r sefyllfa o ran yr arwystl statudol mewn achosion o'r fath wedi'i gwneud yn fwy eglur o lawer. O safbwynt y Cyfarwyddwr, un mater allweddol yw na fydd tystysgrif cymorth cyfreithiol a roddwyd ar gyfer achos gofal yn unig yn cynnwys unrhyw waith a gyflawnir er mwyn gwneud hawliad am iawndal o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Cefnogwyd hyn gan y Llys Teulu yn achos H v Cyngor Sir Northamptonshire a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol [2017] EWHC 282 (Fam), lle datganodd Keehan J: "… where it is necessary for a party to issue a formal HRA claim, proceedings should be issued separately from the care proceedings

and a separate public funding certificate should be sought from the LAA in respect of the matter". Os oes bwriad i wneud hawliad o dan y Ddeddf Hawliau Dynol o dan gymorth cyfreithiol, bydd angen gwneud cais ar wahân.

31. Y llynedd, cododd dadl mewn achos o flaen y Llys Gwarchod mewn perthynas â chwmpas achosion o dan adran 21A Deddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n darparu mecanwaith i adolygu mesurau cadw. Nid oes prawf moddion ar gymorth cyfreithiol i herio mesurau cadw o dan adran 21A. Ar 27 Medi 2016, roedd Charles J yn achos Lindsey Briggs -ac- (1) Paul Briggs (gan ei gyfaill cyfreitha, y Cyfreithiwr Swyddogol), (2) Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolfan Walton (3) Grŵp Comisiynu Clinigol Wirral (4) y Weinyddiaeth Cyfiawnder (5) yr Adran Iechyd (6) y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol [2016] EWCOP 48 wedi cyplysu'r Asiantaeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd yn bartïon i achos y dywedwyd iddo gael ei ddwyn o dan adran 21A Deddf Galluedd Meddyliol (i herio awdurdodiad safonol i amddifadu unigolyn o'i ryddid). Pwrpas hyn oedd profi a oedd modd ymestyn cymorth cyfreithiol heb brawf moddion sydd ar gael i geiswyr a'u cynrychiolwyr i ddod â her o'r fath i gynnwys materion eraill, fel y driniaeth i berson sy'n destun awdurdodiad safonol. Mewn gwrandawiad rhagarweiniol, daliodd Charles J fod yr achos wedi'i ddwyn yn briodol o dan adran 21A a'r canlyniad i hynny oedd y gallai'r llys ystyried mater y driniaeth feddygol hefyd o fewn y cais o dan adran 21A ac, yn bwysig, o dan dystysgrif heb brawf moddion. Effaith hyn oedd y gallai Mrs Briggs ddefnyddio cymorth cyfreithiol heb brawf moddion i herio'r driniaeth yr oedd Mr Briggs yn ei chael. Barn yr Asiantaeth oedd y gellid ariannu cais o'r fath o dan y cynllun cymorth cyfreithiol, ond ar yr amod bod y ceisydd yn gymwys yn ariannol. Er nad oedd Mrs Briggs wedi darparu gwybodaeth am ei hadnoddau ariannol, derbyniwyd yn gyffredinol gan ei thîm cyfreithiol na fyddai wedi bod yn gymwys pe byddai wedi cymryd y prawf moddion.

32. Llwyddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantaeth yn eu hapêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn y Llys Apêl a thraddodwyd y dyfarniad ar 31 Gorffennaf 2017 [gweler achos (1) y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (2) yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Iechyd a Chyfiawnder (3) y Cyfreithiwr Swyddogol -a- Briggs [2017] EWCA Civ 1169]. Rhoddodd y Llys Apêl ddyfarniad manwl a oedd yn cadarnhau (ym mharagraff 110) fod adran 21A o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ymwneud ag a yw amddifadu claf o'i ryddid er budd pennaf i'r claf ar ei ben ei hun a bod Charles J wedi camgymryd wrth ddod i'r casgliad ei bod yn briodol gwneud cais o dan adran 21A lle mae'r prif bwnc yn ymwneud â pharhau â thriniaeth i gynnal bywyd. Effaith yr apêl yw cadarnhau na ellir defnyddio cymorth cyfreithiol heb brawf moddion i herio materion sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol.

# Atebolrwydd

33. Ni fu newid yn y modd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn parhau'n agored i graffu gan y cyhoedd. Mae'r mecanweithiau sydd ar waith i ganiatáu craffu ar waith yr Asiantaeth a chaniatáu i bartïon cysylltiedig ddal y Cyfarwyddwr yn atebol wedi'u hegluro isod.

## Parliamentary questions and freedom of information requests

34. Mae Aelodau Seneddol ac Arglwyddi yn gallu cyflwyno cwestiynau seneddol i holi am y gwaith y mae'r Cyfarwyddwr wedi'i gyflawni mewn perthynas ag achosion neu unigolion. Yn yr un modd, gall y cyhoedd hefyd gyflwyno ceisiadau am wybodaeth sy'n cael ei dal gan yr Asiantaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

35. Yn 2017-18 cafodd Asiantaeth 11 o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 7 cwestiwn seneddol a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol. Roedd y mwyafrif yn ymwneud â'r cynllun Cyllid Achosion Eithriadol ac ariannu achosion unigol.

36. Mae gwybodaeth am gleient cymorth cyfreithiol unigol yn debygol o fod yn ddata personol ac ni ellir eu rhyddhau oni bai fod yr achos yn bodloni'r meini prawf yn Neddf Diogelu Data 1998.

## Cwynion

37. Mae'r Asiantaeth yn ymchwilio'n drylwyr i bob cwyn y mae'n ei chael drwy ddilyn gweithdrefn gwynion ddwy haen. Bydd yr Asiantaeth yn cael cyfle ar ôl i'r gŵyn ddod i law i adolygu'r modd roedd y mater wedi'i drafod ar lefel leol ac unioni'r sefyllfa os oes modd. Os na fydd yr achwynydd wedi'i fodloni gan yr ymateb cyntaf, gall uwchgyfeirio ei gŵyn a gofyn am adolygiad pellach. Os bydd yr achwynydd yn parhau'n anfodlon ar yr ymateb a gafodd, mae ganddo hawl i gyfeirio ei gŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy ei AS lleol.

38. Nid yw'r Asiantaeth yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Cyfarwyddwr ar wahân. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r holl gwynion y mae'r Asiantaeth yn eu cael yn ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau ar waith achos.

# Ystadegau

39. Mae'r Asiantaeth yn delio â cheisiadau am gymorth cyfreithiol mewn gwahanol gategorïau cyfreithiol. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ystadegau cenedlaethol ar niferoedd y ceisiadau yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Cyhoeddir y bwletin hwn bob chwarter, a bydd ystadegau ar gyfer y cyfnod hyd ddiwedd Mawrth 2018 yn cael eu cyhoeddi ar-lein ar 28 Mehefin 2018[2]. Yn benodol, mae ystadegau ar nifer y grantiau a wnaed mewn perthynas â'r gofynion o ran tystiolaeth am drais domestig y cyfeiriwyd atynt yn gynharach wedi'u cynnwys yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

2 Gweler https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

40. Mae'r Asiantaeth yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010.

41. Yn ystod 2017-18 roedd yr Asiantaeth wedi parhau i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff yr Asiantaeth am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau cyrsiau Dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Rhagfarn Anymwybodol. Disgwylir hefyd i'r holl reolwyr llinell gwblhau cwrs ychwanegol ar Ymwybyddiaeth o Anabledd.

42. Mae'r Asiantaeth yn gofyn bod ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn darparu rhywfaint o wybodaeth bersonol i ni mewn perthynas â chydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r Asiantaeth i ddeall anghenion darpar ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn well ac i gasglu ystadegau ar eu hamrywiaeth.

43. Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth cyfle cyfartal roedd derbynwyr cymorth cyfreithiol wedi'i darparu yn ystod tri chwarter cyntaf 2017-18 er mwyn monitro'r graddau y mae'r Asiantaeth yn parhau i ddarparu ar gyfer poblogaeth amrywiol Cymru a Lloegr. Bydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi ystadegau am amrywiaeth cleientiaid cymorth cyfreithiol yn ystod y cyfnod 2017-18 yn rhan o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol a gyhoeddir ar 28 Mehefin 2018, a bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i adolygu'r wybodaeth hon yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

# Diweddglo

44. Mae rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn un bwysig ac mae'r Asiantaeth yn parhau i ddangos ei galluoedd o ran ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth a rheoliadau.

45. Mae'r Cyfarwyddwr yn falch o nodi bod yr Asiantaeth hefyd yn parhau i wella prosesau ac amseroedd cyflawni ar gyfer penderfynu ar achosion unigol. Mae'r broses penderfynu wedi'i dirprwyo i'r tîm Rheoli Achosion ac mae'n destun craffu manwl fel y gellir disgwyl. Mae heriau i'w hateb drwy'r amser.

46. Yn 2017 roedd y rhain yn cynnwys nifer o heriau i'r defnydd o'r arwystl statudol. Mae rhai o'r heriau hyn yn parhau ac wedi'u disgrifio uchod.

47. O ran ei gweithrediadau, mae'r Asiantaeth yn parhau i adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol ac mae ein hymrwymiad i ddigideiddio'n talu ar ei ganfed. Mae hyn yn hanfodol i'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn ein prosesau rheoli achosion. Mae'r gwelliannau hyn yn ein galluogi i barhau i ragori ar dargedau ymestynnol ar gyfer prosesu gweithrediadau.

48. Anfonwyd copi o'r adroddiad hwn at yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7(3) o'r Ddeddf. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

CCS0618858008

978-1-5286-0537-3